

# Nodiadau'r Grŵp Trawsbleidiol ar Nyrsio a Bydwreigiaeth

## 19 Hydref 2016

### Yn bresennol:

- Julie Morgan AC
- Dr Dai Lloyd AC
- Suzy Davies AC
- Mike Hedges AC
- Caroline Jones AC
- Janet John – Cyfarwyddwr, Canolfan Gofalwyr Abertawe
- Andrea Maguire – Canolfan Gofalwyr Abertawe
- Heidi Driscoll – Rhiant-ofalwr, Canolfan Gofalwyr Abertawe
- Karen Berrell – Rhiant-ofalwr, Canolfan Gofalwyr Abertawe
- Keith Skeggs – Rhiant-ofalwr, Canolfan Gofalwyr Abertawe
- Claire Black – Rhiant-ofalwr, Canolfan Gofalwyr Abertawe
- Andi Lyden – Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
- Kieron Rees – Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
- Beth Evans – Swyddog Gwybodaeth a Chyfathrebiadau, Gofalwyr Cymru
- Sarah Rochira – Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Sian Thomas – Nyrs Ymgynghorol, Iechyd Plant, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Sue Ball – Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Denise Llewellyn FRCN
- Gaynor Jones – Cadeirydd y Bwrdd, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
- Tina Donnelly CBE TD DL, Ysgrifennydd y Grŵp a Chyfarwyddwr, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
- Nicola Davis-Job – Cynghorydd Gofal Aciwt ac Arweinyddiaeth, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
- Rosie Raison – Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
- Annie Muiyang – Cynorthwydd Polisi a Materion Cyhoeddus, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru

### Ymddiheuriadau:

- Elin Jones AC
- Angela Burns AC
- Dawn Bowden AC
- Rhun ap Iorwerth AC
- Andrew RT Davies AC
- Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC
- Rebecca Evans AC
- Janet Finch-Saunders AC
- Vaughan Gething AC
- Darren Millar AC
- Nick Ramsay AC
- David Rees AC

- Kirsty Williams AC
- Simon Hatch – Cyfarwyddwr yng Nghymru, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
- Keith Bowen – Ymddiriedolaeth y Gofalwyr
- Timothy Banner – Fferylllydd Ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Peter-Meredith Smith – Cyfarwyddwr Cyswllt (Cysylltiadau Cyflogaeth), Coleg Nyrso Brenhinol Cymru
- Alison Davies – Cyfarwyddwr Cyswllt (Arfer Proffesiynol), Coleg Nyrso Brenhinol Cymru
- Lisa Turnbull – Cynghorydd Polisi a Materion Cyhoeddus, Coleg Nyrso Brenhinol Cymru

### **1. Croeso gan Julie Morgan AC, Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Nyrso a Bydwreigiaeth**

Croesawodd Julie Morgan AC bawb i'r cyfarfod.

### **2. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyntaf y Grŵp Trawsbleidiol**

Dywedodd Julie Morgan AC y byddai hi'n rhoi'r gorau i'w rôl fel Cadeirydd y grŵp trawsbleidiol.

Mynegodd David Rees AC ei ddiddordeb i fod yn Gadeirydd newydd ar gyfer y grŵp trawsbleidiol. Cafodd ei enwebu gan Julie Morgan AC a'i ethol heb wrthwynebiad.

Enwebodd yr Aelodau Cynulliad canlynol eu hunain i fod yn aelodau o'r grŵp trawsbleidiol, ac fe'u hetholwyd heb wrthwynebiad:

- Mike Hedges AC (Llafur)
- Julie Morgan AC (Llafur)
- Jayne Bryant AC (Llafur)
- Suzy Davies AC (Ceidwadwyr)
- Angela Burns (Ceidwadwyr)
- Dr Dai Lloyd AC (Plaid Cymru)
- Caroline Jones AC (UKIP)

Enwebwyd Tina Donnelly CBE TD DL, Cyfarwyddwr, Coleg Nyrso Brenhinol Cymru, yn Ysgrifennydd y Grŵp heb wrthwynebiad.

### **3. Sylwadau agoriadol: Gofalwyr a Nyrso – Tina Donnelly CBE TD DL, Cyfarwyddwr, Coleg Nyrso Brenhinol Cymru**

Gwnaeth Tina Donnelly ddatganiad agoriadol, gan amlinellu'r heriau sy'n wynebu gofalwyr di-dâl drwy gydol y flwyddyn a'r diffyg cymorth cyflenwi y maent yn ei gael. Aeth Tina yn ei blaen i drafod y pwysigrwydd o ddarparu gofal yn y gymuned, ac amlinellodd y syniad arloesol o leoli myfyrwyr nyrsio yng nghartrefi gofalwyr di-dâl, gan y byddai hyn yn fodd o roi cymorth cyflenwi, ac i drefnu lleoliadau ar gyfer myfyrwyr. Yn ogystal â hyn dylai fod cyfle i ofalwyr di-dâl gael eu cydnabod am y sgiliau a'r arbenigedd maent yn meddu arnynt drwy gynnig achrediad priodol, cymwysterau a chyfleoedd ar gyfer eu gyrfaoedd.

### **4. Canolfan Gofalwyr Abertawe – Angela Maguire, Prosiect Pontio Gofalwyr**

Dechreuodd Angela drwy esbonio ei rôl yng Nghanolfan Gofalwyr Abertawe, ac ynghylch y grŵp o ofalwyr di-dâl y mae hi wedi bod yn gweithio'n agos ag ef. Aeth ymlaen i roi

braslun o'r heriau sy'n wynebu riant-ofalwyr a'r pwysau gwaith anferth sydd arnynt a'r diffyg cymorth maent yn ei gael ar hyn o bryd. Ategodd sylwadau Tina ynghylch gofalwyr di-dâl yn cael y cyfle i ennill cymwysterau o ganlyniad i'w sgiliau a'u harbenigedd, ac ychwanegodd y byddai hyn yn gyfle i ofalwyr di-dâl ennill sgiliau a rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned.

### **5. Cyfle agored i drafod materion**

Yn dilyn y cyflwyniadau hyn, cafwyd trafodaeth emosiynol gyda nifer o riant-ofalwyr o Grŵp Gofalwyr Abertawe o dan gadeiryddiaeth Julie Morgan AC. Codwyd sawl pwnc, gan gynnwys trefnu lleoliadau myfyrwyr nyrsio yn y gymuned, a fyddai'n gyfle gwych i leddfau pwysau a rhoi cyfle i ofalwyr di-dâl ennill cymwysterau.

Roedd y pynciau eraill a godwyd yn cynnwys pwysigrwydd gofalwyr ifanc, a rôl y trydydd sector yn y maes hwn.

Gwnaeth holl Aelodau'r Cynulliad a oedd yn bresennol, yn ogystal â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, sylwadau ar sut y gallai hyn fod yn gyfle gwych i wneud gwaith ar y cyd.

Trafododd Tina Donnelly y gefnogaeth eang i'r syniad hwn gan fyrddau iechyd, Aelodau Cynulliad a phrifysgolion, a soniodd am y posibilrwydd o gynnal astudiaeth beilot ar gyfer y syniad arloesol hwn. Croesawyd hyn gan bawb a oedd yn bresennol.

### **6. Sylwadau terfynol a diolch – Gaynor Jones, Cadeirydd, Bwrdd Cymru Coleg Nyrsio Brenhinol**

Rhoddodd Gaynor Jones bleidlais ffurfiol i'r grŵp trawsbleidiol, a diolchodd i'r gofalwyr di-dâl o Grŵp Gofalwyr Abertawe am eu tystiolaeth emosiynol.